**Y Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd y De**

**28 Mehefin 2018, 10:30-12:30**

**Canolfan Richard Price, Betws, Pen-y-bont ar Ogwr**

**Yn bresennol**

**Aelodau'r Tasglu**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, Ken Skates AC (cadeirydd)
Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip, Julie James AC
Y Gweinidog Tai ac Adfywio, Rebecca Evans AC
Judith Evans, Pennaeth, Coleg y Cymoedd
Brian Morgan, Athro Entrepreneuriaeth ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd
Andrew Diplock, Entrepreneur, Buddsoddwr ac Ymgynghorydd Angel
Martin Mansfield, Ysgrifennydd Cyffredinol, TUC Cymru
Ann Beynon, Cyfarwyddwr Anweithredol ac aelod o Gyngor CBI Cymru

**Aelodau Bwrdd y Rhaglen**
Maureen Howell, Cydraddoldeb a Ffyniant – Dirprwy Gyfarwyddwr
John Howells, Cyfarwyddwr, Tai ac Adfywio (SRO)
Madeleine Brindley, Ymgynghorydd Arbennig

**Tîm Tasglu'r Cymoedd**
Sarah King, Arweinydd Prosiect Tasglu'r Cymoedd
Laurie Hayward, Uwch Reolwr Rhaglen, Tasglu'r Cymoedd
Rebecca Janczewski, Rheolwr Ymgysylltu, Tasglu'r Cymoedd

**Siaradwyr**
Rachel Dolman, Sgiliau Gwybodaeth a Dadansoddi, Llywodraeth Cymru
James Burgess, Pennaeth Tîm Cyflenwad Tai
Simon Gale, Cyfarwyddwr Cynllunio yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Dawn Chadwick, Uwch Reolwr Cyfathrebu, Llywodraeth Cymru

**Ymddiheuriadau**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, Alun Davies AC
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, Eluned Morgan AC
Gaynor Richards, Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot
Jocelyn Davies, y Cyn Ddirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio
Y Cynghorydd Andrew Morgan, Arweinydd Rhondda Cynon Taf
Dr Chris Jones, Cadeirydd Dros Dro, AaGIC
Tracey Burke, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus

**Eitem 1: Croeso a Chyflwyniadau.**

1. Yn absenoldeb Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, croesawodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth aelodau'r Tasglu i ddegfed cyfarfod y Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd y De.

**Eitem 2: Mesur y targedau yn y cynllun a'r diweddaraf ar gasglu data.**

1. Cyflwynodd Rachel Dolman (RD) y gwaith y mae Sgiliau Gwybodaeth a Dadansoddi wedi bod yn ei wneud i fesur targedau uchelgeisiol yng nghynllun cyflawni Ein Cymoedd,

Ein Dyfodol i ddarparu darlun clir o gynnydd y Tasglu hyd yma.

2. Tynnodd RD sylw at y setiau data amrywiol sydd ar gael, o ble a sut mae'r data yn cael ei ganfod a sut mae'r wybodaeth yn cael ei dadagregu.
3. Eglurodd RD gymhlethdod mesur targedau penodol yn y cynllun, gan gyfeirio at y targed i greu 7000 o swyddi teg, diogel a chynaliadwy ac nad oes un ffynhonnell ddata unigol ar gael i fesur y targed hwn.
4. Yn ogystal â'r ffynonellau data a ddefnyddiwyd eisoes, o ystyried ffin ddaearyddol cynllun y Tasglu, gellir defnyddio data Llesiant fesul ardal awdurdod lleol hefyd i helpu i fesur cynnydd yn benodol yn ardal y Cymoedd.
5. Dywedodd Martin Mansfield (MM) fod y cymhlethdod o fesur data yn amlwg a dylid ei nodi.
6. Dywedodd Ann Beynon (AB) wrth drafod y targed 7000 o swyddi y dylem nid yn unig ddeall nifer y swyddi ond hefyd nifer yr oriau y mae pobl wedi'u contractio i weithio, er enghraifft gwybodaeth am gontractau dim oriau.
7. Gofynnodd Julie James (JJ) pa mor aml mae data ar gael gan Sgiliau Gwybodaeth a Dadansoddi er mwyn i'r Tasglu allu ei ddefnyddio i ymateb a gwella. Dywedodd Martin Mansfield (MM) y byddai'n syniad da olrhain a defnyddio mwy o ddata amser real gan y byddai hyn yn ein galluogi i weithio yn well gyda busnesau yn y sector preifat.
8. Ychwanegodd AB y byddai'n ddefnyddiol dros ben yn ystod y cyfnod nesaf gyda'r ansicrwydd o ran Brexit i nodi a mynd i'r afael â bylchau mewn amser real.
9. Trafododd aelodau'r posibilrwydd o gynyddu set ddata, ond eglurodd RD ein bod eisoes yn hybu data ac yn chwilio am ffyrdd o gynyddu'r data sydd ar gael; fodd bynnag, gall hyn fod yn gostus iawn.
10. Cadarnhaodd RD fod data yn cael ei gasglu bob mis ac wrth symud ymlaen y bydd Sgiliau Gwybodaeth a Dadansoddi yn rhoi diweddariad bob chwarter i'r Tasglu. **Gweithredu**
11. Nododd JJ y byddai'n ddefnyddiol cael diweddariad ar y Cynllun Cyflogadwyedd a chytunwyd y dylid cynnwys hyn yn yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf. **Gweithredu**

**Item 3: Ein Cymoedd, Ein Dyfodol – Adroddiad Cynnydd.**

12. Darparodd Maureen Howell (MH) gyflwyniad i'r adroddiad cynnydd drafft a oedd i gael ei gyhoeddi gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus ar 10 Gorffennaf a gwahoddodd Aelodau i roi sylwadau.
13. Cytunodd aelodau fod yr adroddiad drafft yn adlewyrchiad da o weithgarwch ers mis Tachwedd 2017, ond y dylid rhoi mwy o sylw i'r ymgysylltu sydd wedi'i wneud ar Fetro De Cymru a'r buddsoddiad i greu swyddi yn yr adroddiad cyn ei gyhoeddi.
14. Tynnodd JJ sylw at yr angen i edrych ar y diffiniad dros dro o Waith Teg yn y contract economaidd i sicrhau cysondeb ac i fod yn ymwybodol o gyhoeddiad arfaethedig y Comisiwn Gwaith Teg.
15. Dywedodd Rebecca Evans (RE) fod angen i'r adroddiad gyfeirio'n gliriach at y gwaith ansawdd tai sy'n cael ei wneud gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig.
16. Gofynnodd MM am y cyfle i gyfrannu at y gwaith o ddatblygu ail fersiwn o gynllun cyflawni Ein Cymoedd, Ein Dyfodol, a fydd yn cael ei ddiweddaru a'i ailgyhoeddi ym mis Tachwedd. **Gweithredu**

**Eitem 4: Tai – Cysoni blaenoriaethau rhwng Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol**

17. Rhoddodd James Burgess (JB) o Is-adran Cartrefi a Lleoedd Llywodraeth Cymru ddiweddariad ar y cydweithio sydd wedi digwydd i gyrraedd y targed o 20,000 o gartrefi fforddiadwy, gan gynnwys gwaith penodol rhwng Llywodraeth Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (RhCT) a chydweithio â Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.
18. Crybwyllodd JB rai o'r heriau wrth gyrraedd y targed o 20,000 o gartrefi fforddiadwy a'r

cyfleoedd, yn enwedig yn y Cymoedd lle mae angen dybryd am dai fforddiadwy a safleoedd mawr amlwg sy'n addas ar gyfer eu datblygu lle na yw cwmnïau adeiladu mawr yn dewis adeiladu fel arfer.

19. Eglurodd JB sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol y Cymoedd i edrych ar ffyrdd arloesol a newydd o annog a galluogi adeiladwyr BBaChau ac unigolion i adeiladu cartrefi fforddiadwy.
20. Cyflwynodd Simon Gale (SG), Cyfarwyddwr Cynllunio Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, y gwaith y maent wedi bod yn ei arwain ar dai, gan gynnwys sefydlu Fforwm Datblygwyr y Cyngor, sy'n dwyn ynghyd cynrychiolwyr o'r awdurdod lleol, cymdeithasau tai, cwmnïau cyfyngedig cyhoeddus ac adeiladwyr BBaCh. Yr unig enghraifft o'r math hwn o fforwm yng Nghymru.
21. Ym menter beilot RhCT, sy'n seiliedig ar y model Plot Shop, mae'r awdurdod yn rhyddhau tir sy'n eiddo iddynt ac yn eu rhannu'n blotiau fel y gall unigolion allu ei brynu ac adeiladu arno ei hun.
22. Eglurodd SG sut maent yn gweithio i symleiddio a hwyluso'r broses adeiladu a gweithio gyda phenseiri i gynllunio cartrefi ar gyfer y plotiau tir, gan edrych ar opsiynau cyllido arloesol i ddarparu opsiynau fforddiadwy i bobl i godi arian i adeiladu eu cartrefi. Mae'r ateb hwn yn galluogi pobl sy'n ennill cyflogau arferol i adeiladu eu cartrefi eu hunain yn fforddiadwy. Y bwriad yw y bydd y fenter hon yn cael ei chyflwyno'n raddol fel rhan o Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.
23. Rhoddodd Andrew Diplock (AD) sylwadau ar gynaliadwyedd y cartrefi hyn a gofynnodd a oedd hyn wedi'i ystyried wrth ddatblygu'r fenter. Eglurodd SG y bydd y cartrefi cyntaf yn cael eu hadeiladu i safonau adeiladu cyfredol ond bod uchelgais yn y dyfodol i ddatblygu'r model i gynnwys cartrefi effeithlon o ran ynni a thai modiwlar.
24. Gofynnodd AB am yr opsiynau cyllido, gan awgrymu bod RhCT yn gweithio gyda banciau yn hytrach na defnyddio arian cyhoeddus. Ymatebodd SG gan roi enghraifft o gynllun yn Essex lle mae'r awdurdod lleol yn gweithredu fel gwarantwr ar gyfer prynwyr. Dywedodd JJ y byddai'n ddefnyddiol datblygu opsiynau ar gyfer prynwyr i gynnig sawl gwahanol fath o forgais.
25. Gofynnodd AB hefyd am y sgiliau i adeiladu'r cartrefi hyn. Eglurodd JB fod diffyg sgiliau a bod adeiladwyr ar gyfartaledd tua 50 oed ar hyn o bryd ond bod Llywodraeth Cymru yn edrych ar opsiynau, gan gynnwys tai modiwlar sy'n llai technegol ac yn helpu i ddatrys y broblem hon. Tynnodd JJ sylw at y cysylltiadau rhwng tai modiwlar a blaenoriaethau'r Tasglu.
26. Gofynnodd AB hefyd am Gynllun Datblygu Lleol mewn perthynas â chynllunio. Cadarnhaodd SG nad yw hyn yn broblem.

**Eitem 5: Ymgyrch Gyfathrebu Tasglu'r Cymoedd**

27. Rhoddodd Dawn Chadwick (DC), Uwch Reolwr Cyfathrebu Llywodraeth Cymru'r newyddion diweddaraf ar gynnydd gydag ymgyrch gyfathrebu Tasglu'r Cymoedd.
28. Mae cynnydd yn cynnwys lansio cân Ein Cymoedd ar Spotify, wedi'i hysgrifennu gan y gantores a'r gyfansoddwraig Gymraeg, Kizzy Crawford, a'i chanu ganddi a mwy na 200 o blant o ysgolion ledled y Cymoedd.

29. Eglurodd DC fod yr ymgyrch hefyd yn cynnwys prosiect, sydd wedi'i ysbrydoli gan brosiect yr arlunydd Luke Jerram, *Play Me, I'm Yours*, sydd wedi cyrraedd mwy na 10 miliwn o bobl ledled y byd. Mae'r prosiect Piano'r Cymoedd yn ddigwyddiad drwy'r haf ar gyfer 2018 sy'n gweithio gyda chymunedau'r Cymoedd i addurno 10 piano, a fydd yna'n cael eu gosod mewn lleoliadau poblogaidd ledled y Cymoedd i bobl leol eu mwynhau. Nod y prosiect yw dod â phobl yn agosach at eu cymunedau lleol drwy gerddoriaeth a chreadigrwydd.

**Eitem 6: UFA a sylwadau i gloi**

30. Daeth KS â’r cyfarfod i ben drwy ddiolch i bawb a oedd yn bresennol am eu cyfraniad a nodi y bydd agendau yn y dyfodol yn cael eu cynllunio o gwmpas cerrig milltir allweddol pob ffrwd gwaith a diweddariadau polisi perthnasol eraill. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 4 Hydref a bydd y lleoliad yn cael ei gadarnhau maes o law.